CBAC Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau

Uned 3: Hybu hawliau unigolion ar bob cam o'r rhychwant oes

Cymeradwywyd gan Cymwysterau Cymru

Mae'r cymhwyster hwn yn rhan o'r gyfres newydd o gymwysterau Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant yng Nghymru a ddarperir gan City&Guilds/CBAC.

Nid yw'r cymhwyster hwn a reoleiddir gan Cymwysterau Cymru ar gael i ganolfannau Lloegr.

I'w asesu gyntaf o 2024

Deunyddiau Asesu Enghreifftiol (Mewnol)

Fersiwn 4 - Hydref 2026



CRYNODEB O NEWIDIADAU

Fersiwn	Disgrifiad	Rhif y dudalen
2	Dileu cyfeiriadau at ddamcaniaethwyr mewn bandiau marcio ar gyfer tasg (a)	10
3	Diweddarwyd datganiadau Taflen Farciau'r Ganolfan	17
4	Tynnwyd y ffurflenni ymgeiswyr a datganiad ac mae'r rhain bellach ar gael dan y tab Dogfennau Allweddol a Deunyddiau Cwrs a 'Taflen Marciau' ar gyfer pob uned.	-

© WJEC CBAC Cyf.

Cynnwys

Tasg a Chynllun Marcio	**Tudalen**
UNED 3:	
Tasg	5
Cynllun marcio	8
Mapio	15

© WJEC CBAC Cyf.

LEFEL 3

4973N3

ASESIAD (ASESIAD DI-ARHOLIAD MEWNOL)

IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL: EGWYDDORION A CHYD-DESTUNAU

UNED 3 ASESIAD DI-ARHOLIAD: Hybu hawliau unigolion ar bob cam o'r rhychwant oes

20 AWR

CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

Mae gofyn i chi ymchwilio a llunio tystiolaeth ar sut i hybu hawliau unigolion mewn **un** grŵp penodol ar bob cam o'u rhychwant oes.

Gallai'r grwpiau penodol gynnwys:

- unigolion sy'n byw gydag iechyd meddwl gwael
- oedolion hŷn
- unigolion sy'n byw gyda dementia
- unigolion sydd â nam corfforol
- unigolion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol
- unigolion sy'n byw gydag afiechyd tymor hir
- unigolion sy'n byw gyda chyflyrau sy'n cyfyngu ar fywyd.

Nid yw'r rhestr yn gynhwysfawr.

Dylech dreulio tua **20 awr** yn cwblhau'r dasg hon

© WJEC CBAC Cyf.

Tasg Uned 3

Mae gan bob unigolyn hawliau wrth gael mynediad at wasanaethau iechyd, gofal a llesiant yng Nghymru; dylen nhw gael eu cefnogi i gyflawni'r canlyniadau maen nhw'n eu dymuno.

Lluniwch bodlediad, cyflwyniad neu fideo ar sut i hybu hawliau unigolion o **un** grŵp penodol ar bob cam o'u rhychwant oes.

Gallai'r grwpiau penodol gynnwys:

- unigolion sy'n byw gydag iechyd meddwl gwael
- oedolion hŷn
- unigolion sy'n byw gyda dementia
- unigolion sydd â nam corfforol
- unigolion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol
- unigolion sy'n byw gydag afiechyd tymor hir
- unigolion sy'n byw gyda chyflyrau sy'n cyfyngu ar fywyd.

Nid yw'r rhestr yn gynhwysfawr.

Ni ddylai eich podlediad, cyflwyniad neu fideo fod yn fwy na 10 munud o hyd

Rhaid i'ch podlediad, cyflwyniad neu fideo:

(a) Amlinellu prif anghenion a hawliau'r grŵp o unigolion o'ch dewis chi.

(12 marc)

(b) Crynhoi beth yw ystyr iechyd a llesiant mewn perthynas â'r grŵp o unigolion o'ch dewis chi; archwilio ffactorau a fyddai'n gallu effeithio ar eu hiechyd a'u llesiant.

(22 marc)

(c) Trafod y rhwystrau posibl i gyfranogiad y gall y grŵp o unigolion o'ch dewis chi ddod ar eu traws.

(14 marc)

(ch) Esbonio sut mae deddfwriaeth gyfredol berthnasol yn cefnogi hawliau'r grŵp o unigolion o'ch dewis chi.

(16 marc)

(d) Ystyried sut byddai hawliau'r grŵp o unigolion o'ch dewis chi yn gallu cael eu hybu; nodi strategaethau a mentrau perthnasol sy'n cefnogi hyn.

(16 marc)

Cyfanswm: (80 marc)

© WJEC CBAC Cyf.

Gwybodaeth i ymgeiswyr

Mae'r wybodaeth ganlynol wedi cael ei haddasu o ddogfen y *CGC Gwybodaeth i Ymgeiswyr – asesiadau di-arholiad*[1]. Mae'n rhoi gwybod i chi am rai pethau y mae'n **rhaid** i chi eu gwneud ac y mae'n **rhaid i chi beidio** â'u gwneud wrth i chi gwblhau eich asesiad. Os nad ydych yn deall rhywbeth, **rhaid** i chi ofyn i'ch athro.

Paratoi eich gwaith

- Os byddwch yn derbyn cymorth ac arweiniad gan unrhyw un heblaw eich athro, **rhaid** i chi ddweud wrth eich athro a fydd wedyn yn cofnodi natur y cymorth a roddwyd i chi.
- Os buoch chi'n gweithio fel rhan o grŵp ar aseiniad, er enghraifft, yn cynnal ymchwil maes, **rhaid** i bob un ohonoch chi ysgrifennu eich cyfrif eich hun o'r aseiniad. Hyd yn oed os yw'r data sydd gennych chi yr un fath, **rhaid** i chi ddisgrifio yn eich geiriau eich hun sut cafwyd y data hynny a **rhaid i chi ddod i'ch casgliadau eich hun am y data yn annibynnol**.
- Cymerwch ofal o'ch gwaith a'i gadw'n ddiogel. **Peidiwch** â'i adael o gwmpas lle gall eich cyd-ddisgyblion ddod o hyd iddo neu ei rannu ag unrhyw un, gan gynnwys ei rannu ar y cyfryngau cymdeithasol. **Rhaid** i chi bob amser gadw eich gwaith yn ddiogel ac yn gyfrinachol wrth i chi ei baratoi; **peidiwch** â'i rannu â'ch cyd-ddisgyblion. Os byddwch yn ei gadw ar rwydwaith cyfrifiadur, cadwch eich cyfrinair yn ddiogel. Casglwch yr holl gopïau o'r argraffydd a dinistriwch y rheini nad oes eu hangen arnoch.
- **Peidiwch** â chael eich temtio i ddefnyddio atebion ar-lein wedi'u paratoi ymlaen llaw – twyllo yw hyn. Gall offer electronig sy'n cael eu defnyddio gan CBAC ganfod y math hwn o gopïo.
- **Ni ddylech** ysgrifennu deunydd amhriodol, anweddus na sarhaus.

Gwaith ymchwil a defnyddio cyfeiriadau

- Wrth gynhyrchu darn o waith, os ydych chi'n defnyddio'r un geiriad â ffynhonnell gyhoeddedig, **rhaid** i chi roi dyfynodau o amgylch y darn a nodi o ble y daeth.
- **Rhaid** i chi wneud yn siŵr eich bod chi'n rhoi cyfeiriadau manwl i bopeth yn eich gwaith heblaw am eich geiriau eich hun.
- Yn achos deunydd o'r rhyngrwyd, dylai eich cyfeiriad ddangos y dyddiad y lawrlwythwyd y deunydd a **rhaid** dangos yr union dudalen we, nid y peiriant chwilio a ddefnyddiwyd i ddod o hyd iddo.
- **Os byddwch yn copïo geiriau neu syniadau pobl eraill ac nad ydych yn dangos eich ffynonellau mewn cyfeiriadau a llyfryddiaeth, bydd hyn yn cael ei ystyried yn dwyllo.**

Llên-ladrad

Llên-ladrad yw cymryd geiriau, barn neu syniadau rhywun arall a cheisio honni mai eich gwaith chi ydyw. **Mae'n fath o dwyllo ac mae'n cael ei gymryd o ddifrif. Peidiwch** â meddwl na fyddwch chi'n cael eich dal; mae sawl ffordd o ganfod llên-ladrad:

- gall marcwyr sylwi ar newidiadau yn arddull yr ysgrifennu a'r defnydd o iaith
- mae marcwyr yn arbenigwyr pwnc hynod brofiadol — efallai y byddant wedi darllen y ffynhonnell rydych yn ei defnyddio, neu hyd yn oed wedi marcio'r gwaith rydych wedi copïo ohono
- Gellir defnyddio peiriannau chwilio'r rhyngrwyd a meddalwedd cyfrifiadurol arbenigol i gysylltu ymadroddion neu ddarnau o destun â ffynonellau gwreiddiol ac i ganfod newidiadau mewn gramadeg ac yn arddull yr ysgrifennu neu'r atalnodi.

[1] https://www.jcq.org.uk/wp-content/uploads/2021/08/IFC-NE_Assessments_2021_v4.pdf

© WJEC CBAC Cyf.

Cosbau am dorri'r rheoliadau

Os gwelir eich bod chi wedi torri'r rheoliadau, byddwch chi'n cael eich cosbi gan ddefnyddio un o'r cosbau canlynol:

- bydd y darn o waith yn cael sero o farciau
- byddwch chi'n cael eich gwahardd o'r asesiad ar gyfer y gyfres arholiadau/cymedroli dan sylw
- byddwch chi'n cael eich gwahardd o'r cymhwyster cyfan ar gyfer y gyfres arholiadau / cymedroli honno
- byddwch chi'n cael eich gwahardd o bob cymhwyster a'ch rhwystro rhag ailgofrestru am gyfnod o amser.

CBAC fydd yn penderfynu pa gosb sy'n briodol.

Cofiwch – eich cymhwyster chi ydyw felly rhaid mai eich gwaith chi ydyw.

© WJEC CBAC Cyf.

CYNLLUN MARCIO

LEFEL 3
IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL
EGWYDDORION A CHYD-DESTUNAU – UNED 3
4973N3

Cynllun marcio wedi'i gwtogi yw hwn. Mae'r fersiwn cyflawn gyda'r cynnwys dangosol yn rhan ohono i'w gael ar wefan ddiogel CBAC www.wjecservices.co.uk.

© WJEC CBAC Cyf.

Gwybodaeth i aseswyr am ddefnyddio cynlluniau marcio sy'n seiliedig ar fandiau

Mae cynlluniau marcio sy'n seiliedig ar fandiau wedi'u rhannu fel bod gan bob band mewn adran ddisgrifydd perthnasol. Mae disgrifydd y band yn disgrifio lefel y perfformiad ar gyfer y band hwnnw. Mae pob band yn cynnwys marciau.
Cyn marcio, dylech ddarllen ac anodi gwaith ymgeisydd yn gyntaf er mwyn nodi'r dystiolaeth sy'n cael ei hasesu. Ar ôl cwblhau'r anodi, gallwch gymhwyso'r cynllun marcio. Proses dau gam yw hon.

Cam 1 – Penderfynu ar y band

Gan ddechrau gyda'r band isaf, dylech edrych ar yr adran briodol o waith yr ymgeisydd a gweld a yw'n cyd-fynd â disgrifydd y band marcio ar gyfer yr adran honno. Os bodlonir disgrifydd y band isaf, dylech symud i fyny i'r band nesaf ac ailadrodd y broses hon ar gyfer pob band nes bydd y disgrifydd yn cyfateb i'r gwaith.
Os yw gwaith ymgeisydd yn trafod agweddau gwahanol ar fandiau gwahanol yn y cynllun marcio, dylid defnyddio dull 'ffit orau' er mwyn penderfynu ar y band ac yna dylid defnyddio gwaith yr ymgeisydd i benderfynu ar y marc o fewn y band. Er enghraifft os yw gwaith ym mand 2 yn bennaf ond bod rhywfaint o'r cynnwys yn waith band 3, byddai'r gwaith yn cael ei roi ym mand 2, ond byddai'r marc a ddyfernir yn agos at frig band 2 oherwydd y cynnwys band 3.
Ni ddylech dynnu marciau oddi ar ymgeiswyr am adael mân bethau allan mewn rhannau dibwys o'u gwaith.

Cam 2 – Penderfynu ar y marc

Wedi i'r band gael ei benderfynu, gallwch bennu marc. Bydd CBAC yn darparu deunydd enghreifftiol y rhoddwyd marc iddo yn barod, a dylid defnyddio hwn fel deunydd cyfeirio wrth asesu'r gwaith.

Wrth farcio, gallwch ddefnyddio'r enghreifftiau hyn i benderfynu a yw gwaith ymgeisydd o safon uwch, is neu debyg i'r enghraifft. Caiff aseswyr eu hatgoffa bod angen iddynt gyfeirio'n ôl at y gwaith wrth iddynt gymhwyso'r cynllun marcio er mwyn cadarnhau bod y band a'r marc a ddyrennir yn briodol i'r gwaith a gyflwynwyd.
Os nad yw'r gwaith yn haeddu marc, hynny yw, nid yw'n cynnwys unrhyw beth o arwyddocâd i'r project, neu os na ddarparwyd ateb o gwbl, ni ddylid dyfarnu unrhyw farciau.

Safoni mewnol

Os oes mwy nag un athro mewn canolfan, mae'n hanfodol bod gwaith o bob grŵp addysgu'n cael ei safoni'n fewnol. Bwriad hyn yw sicrhau bod yr asesiad terfynol yn adlewyrchu un safon y cytunwyd arni ar gyfer pob grŵp addysgu. Bydd pob canolfan yn derbyn adborth manwl ynglŷn â'r broses gymedroli drwy wefan ddiogel CBAC ar ddiwrnod y canlyniadau.

© WJEC CBAC Cyf.

Uned 3: Hybu hawliau unigolion ar bob cam o'r rhychwant oes

(a)	**Amlinellu prif anghenion a hawliau'r grŵp o unigolion o'ch dewis chi.** **[12 marc]**
Band	**AA1:** *Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o amrywiaeth o gysyniadau, gwerthoedd a materion allweddol sy'n berthnasol i iechyd a gofal cymdeithasol.*
4	**10-12 marc** Amlinelliad gwych sy'n gwneud y canlynol: • dangos gwybodaeth a dealltwriaeth drylwyr o brif anghenion a hawliau'r grŵp o unigolion a ddewiswyd • canolbwyntio ar y rhan fwyaf o anghenion gofal a chymorth y grŵp o unigolion a ddewiswyd.
3	**7-9 marc** Amlinelliad da sy'n: • dangos gwybodaeth a dealltwriaeth gadarn ar y cyfan o brif anghenion a hawliau'r grŵp o unigolion a ddewiswyd • canolbwyntio ar amrywiaeth o anghenion gofal a chymorth y grŵp o unigolion a ddewiswyd.
2	**4-6 marc** Amlinelliad sylfaenol sy'n gwneud y canlynol: • dangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o anghenion a/neu hawliau'r grŵp o unigolion a ddewiswyd • canolbwyntio ar rai o anghenion gofal a chymorth y grŵp o unigolion a ddewiswyd.
1	**1-3 marc** Amlinelliad cyfyngedig sy'n gwneud y canlynol: • dangos fawr ddim gwybodaeth na dealltwriaeth o anghenion na hawliau'r grŵp o unigolion a ddewiswyd • canolbwyntio ar ychydig iawn o anghenion gofal a chymorth y grŵp o unigolion a ddewiswyd.
	0 marc Ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb.

© WJEC CBAC Cyf.

(b)	**Crynhoi beth yw ystyr iechyd a llesiant mewn perthynas â'r grŵp o unigolion o'ch dewis chi; archwilio ffactorau a fyddai'n gallu effeithio ar eu hiechyd a'u llesiant** **[22 marc]**	
Band	**AA1:** *Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o amrywiaeth o gysyniadau, gwerthoedd a materion allweddol sy'n berthnasol i iechyd a gofal cymdeithasol.* **AA3:** *Dadansoddi a gwerthuso egwyddorion a chyd-destunau iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn dangos dealltwriaeth, myfyrio ar y ffordd y gallant ddylanwadu ar ymarfer, ffurfio barn resymedig a dod i gasgliadau.*	
Band	**AA1**	**AA3**
4	Nid oes unrhyw farciau Band 4 ar gyfer yr amcan asesu hwn. Dyfernir 6 marc fel yn achos Band 3.	**13-16 marc** Archwiliad gwych sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth gadarn o ffactorau a fyddai'n gallu effeithio ar iechyd a llesiant y grŵp o unigolion a ddewiswyd.
3	**5-6 marc** Crynodeb da iawn sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth drylwyr o beth mae iechyd a llesiant yn ei olygu mewn perthynas â'r grŵp o unigolion a ddewiswyd.	**9-12 marc** Archwiliad da sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth gadarn ar y cyfan o ffactorau a fyddai'n gallu effeithio ar iechyd a llesiant y grŵp o unigolion a ddewiswyd.
2	**3-4 marc** Crynodeb da sy'n dangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth gadarn o beth mae iechyd a llesiant yn ei olygu mewn perthynas â'r grŵp o unigolion a ddewiswyd.	**5-8 marc** Archwiliad sylfaenol sy'n dangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o ffactorau a fyddai'n gallu effeithio ar iechyd a llesiant y grŵp o unigolion a ddewiswyd.
1	**1-2 farc** Crynodeb cyfyngedig sy'n dangos fawr ddim gwybodaeth a dealltwriaeth o beth mae iechyd a llesiant yn ei olygu mewn perthynas â'r grŵp o unigolion a ddewiswyd.	**1-4 marc** Archwiliad cyfyngedig sy'n dangos fawr ddim gwybodaeth a dealltwriaeth o ffactorau a fyddai'n gallu effeithio ar iechyd a llesiant y grŵp o unigolion a ddewiswyd.
	0 marc Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb.	**0 marc** Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb.

© WJEC CBAC Cyf.

(c)	**Trafod y rhwystrau posibl i gyfranogiad y gall y grŵp o unigolion o'ch dewis chi ddod ar eu traws.** **[14 marc]**
Band	***AA3:*** *Dadansoddi a gwerthuso egwyddorion a chyd-destunau iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn dangos dealltwriaeth, myfyrio ar y ffordd y gallant ddylanwadu ar ymarfer, ffurfio barn resymedig a dod i gasgliadau.*
4	**12-14 marc** Trafodaeth wych sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth gadarn o'r rhwystrau posibl i gyfranogiad y gall y grŵp a ddewiswyd ddod ar eu traws.
3	**8-11 marc** Trafodaeth dda sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth gadarn ar y cyfan o'r rhwystrau posibl i gyfranogiad y gall y grŵp a ddewiswyd ddod ar eu traws.
2	**4-7 marc** Trafodaeth syml sy'n dangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o'r rhwystrau posibl i gyfranogiad y gallai'r grŵp a ddewiswyd ddod ar eu traws. Mae'n bosibl na fydd rhai o'r rhwystrau a nodwyd yn berthnasol i'r grŵp a ddewiswyd.
1	**1-3 marc** Trafodaeth gyfyngedig sy'n dangos fawr ddim gwybodaeth a dealltwriaeth o'r rhwystrau posibl i gyfranogiad y gallai'r grŵp a ddewiswyd ddod ar eu traws. Gall yr ymateb edrych fel rhestr ac efallai na fydd yr holl rwystrau a nodwyd yn berthnasol i'r grŵp a ddewiswyd.
	0 marc Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb.

© WJEC CBAC Cyf.

(ch)	**Esbonio sut mae deddfwriaeth gyfredol berthnasol yn cefnogi hawliau'r grŵp o unigolion o'ch dewis chi.** **[16 marc]**
Band	**AA2:** *Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o egwyddorion a chyd-destunau iechyd a gofal cymdeithasol.*
4	**13-16 marc** Esboniad gwych sy'n dangos: • gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl a thrylwyr o ddeddfwriaeth gyfredol • dealltwriaeth hyderus o amrywiaeth o'r ffyrdd mae deddfwriaeth yn cefnogi hawliau'r grŵp a ddewiswyd.
3	**9-12 marc** Esboniad da sy'n dangos: • gwybodaeth a dealltwriaeth drylwyr o ddeddfwriaeth gyfredol • dealltwriaeth gadarn ar y cyfan o'r ffyrdd mae deddfwriaeth yn cefnogi hawliau'r grŵp a ddewiswyd.
2	**5-8 marc** Esboniad sylfaenol sy'n dangos: • gwybodaeth a dealltwriaeth glir yn gyffredinol o ddeddfwriaeth gyfredol • peth dealltwriaeth o rai o'r ffyrdd mae deddfwriaeth yn cefnogi hawliau'r grŵp a ddewiswyd.
1	**1-4 marc** Esboniad cyfyngedig sy'n dangos: • rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o ddeddfwriaeth gyfredol • fawr ddim dealltwriaeth ynghylch o leiaf un ffordd mae deddfwriaeth yn cefnogi hawliau'r grŵp a ddewiswyd • peth dealltwriaeth ynghylch sut mae deddfwriaeth yn cefnogi hawliau unigolion ond nid yw'r ddeddfwriaeth yn berthnasol i'r grŵp a ddewiswyd
	0 marc Ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb.

© WJEC CBAC Cyf.

(d)	**Ystyried sut byddai hawliau'r grŵp o unigolion o'ch dewis chi yn gallu cael eu hybu; nodi strategaethau a mentrau perthnasol sy'n cefnogi hyn.** **[[16 marc]**	
Band	**AA1:** *Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o amrywiaeth o gysyniadau, gwerthoedd a materion allweddol sy'n berthnasol i iechyd a gofal cymdeithasol.* **AA3:** *Dadansoddi a gwerthuso egwyddorion a chyd-destunau iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn dangos dealltwriaeth, myfyrio ar y ffordd y gallant ddylanwadu ar ymarfer, ffurfio barn resymedig a dod i gasgliadau.*	
Band	**AA1**	**AA3**
4	Nid oes unrhyw farciau Band 4 ar gyfer yr amcan asesu hwn. Dyfernir 6 marc fel yn achos Band 3.	**9-10 marc** Ymateb gwych sy'n dangos dealltwriaeth hyderus o sut gallai hawliau'r grŵp a ddewiswyd gael eu hybu ac sy'n cynnig arsylwadau dilys ac wedi'u cyfiawnhau.
3	**5-6 marc** Ymateb da iawn sy'n nodi strategaethau a mentrau sy'n uniongyrchol berthnasol i hybu hawliau'r grŵp a ddewiswyd.	**6-8 marc** Ymateb da sy'n dangos dealltwriaeth gadarn ar y cyfan o sut gallai hawliau'r grŵp a ddewiswyd gael eu hybu ac sy'n cynnig arsylwadau dilys ac wedi'u cyfiawnhau ar y cyfan.
2	**3-4 marc** Ymateb da sy'n nodi strategaethau a mentrau sy'n berthnasol i hybu hawliau'r unigolion. Efallai nad yw rhai o'r strategaethau a mentrau a nodwyd yn berthnasol i'r grŵp o unigolion a ddewiswyd.	**3-5 marc** Ymateb sylfaenol sy'n dangos peth dealltwriaeth o sut gallai hawliau'r grŵp a ddewiswyd gael eu hybu ac sy'n cynnig rhai arsylwadau dilys ac wedi'u cyfiawnhau
1	**1-2 farc** Ymateb syml sy'n nodi strategaethau a mentrau sy'n ymwneud â i hybu hawliau'r grŵp a ddewiswyd. Gall yr ymateb edrych fel rhestr ac efallai na fydd y strategaethau a mentrau yn gwbl berthnasol i'r grŵp o unigolion a ddewiswyd.	**1-2 farc** Ymateb cyfyngedig sy'n dangos fawr ddim dealltwriaeth o sut gallai hawliau'r grŵp a ddewiswyd gael eu hybu ac mae'r arsylwadau yn rhai cyfyngedig.
	0 marc Nid yw'r ateb yn haeddu unrhyw farciau neu nid oedd ymgais i ateb.	**0 marc** Nid yw'r ateb yn haeddu unrhyw farciau neu nid oedd ymgais i ateb.

© WJEC CBAC Cyf.

Mapio Uned 3 Asesiad Di-arholiad i gynnwys y fanyleb a'r amcanion asesu

Asesu Meini Prawf	Cynnwys y fanyleb					Dyraniad marciau			
	Adran					Cyfanswm Marciau	Marciau AA1	Marciau AA2	Marciau AA3
	3.1	3.2	3.3	3.4	3.5				
Tasg (a)	✓					12	12	0	0
(b)		✓				22	6	0	16
(c)			✓			14	0	0	14
(ch)				✓		16	0	16	0
(d)					✓	16	6	0	10
Cyfanswm						80	24	16	40

© WJEC CBAC Cyf.